

## **COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN A GYNHALIWDY DRWY ZOOM, nos Fercher Hydref 14eg, 2020 am 7.45 o'r gloch**

### **PRESENNOL**

O. Hefin Roberts (Cadeirydd); G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Wyn Griffiths, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams, Cyng. Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebydd)

### **YMDDIHEURIADAU**

Angharad Correia-Martins, Edward O. Griffith, Alun Jones, John Gwilym Jones, Cyng. John B. Hughes (Cyngor Gwynedd – Sylwebydd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cydymdeimlwyd â'r Cyng. Wyn Griffiths ar ei brofedigaeth ddiweddar.

Yn anffodus, ni allai Cyng. Alun Jones uno â'r cyfarfod oherwydd nad oes ganddo gyfrifiadur. Cafodd Cyng. Edward O. Griffith drafferth â'i gyfrifiadur wrth gysylltu. Cyflwynodd Cyng. John Gwilym Jones ei sylwadau ar y ceisiadau cynllunio ymlaen llaw oherwydd na allai yntau ymuno â'r cyfarfod. Yn anffodus, rhewodd cyfrifiadur y Clerc yng nghanol y cyfarfod hefyd – llwyddodd ailymuno cyn y diwedd.

#### **1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Cyng. Robert M. Jones fuddiant yn eitem 12. Ysgol Aber-soch gan ei fod yn cynrychioli'r Cyngor ar Gorff Llywodraethol Ysgol Sarn Bach. [Cytunodd barhau fel cynrychiolydd ar y Corff hwnnw.]

#### **2. CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fehefin 3ydd, 2020 yn gywir.

#### **3. EITEMAU BRYD (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Ni dderbyniwyd dim.

#### **4. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Derbyniwyd sylwadau ar y ceisiadau a ganlyn ymlaen llaw, gan yr anfonir hwy at yr Aelodau wrth eu derbyn trwy e-bost. Yn anffodus, ni dderbyniwyd hanner dwsin ohonynt (rhwng Medi 1af a'r 22ain – nodir ag \* isod) am ryw reswm:

C20/0528/39/LL

**Cais Diwygiedig** – Creu mynedfa gerbydol a ffordd fynediad newydd – Bwlchtocyn Ffarm, Bwlchtocyn – **Gwrthwynebir oherwydd ei leoliad ar ben y bryn ar ffordd gul, brysur yn arbennig yn ystod y**

	<b>tymor gwyliau. Mynegwyd hefyd nad oes fawr o newid o'r cais gwreiddiol</b>
*C20/0676/39/LL	Dymchwel caban presennol a chodi estyniad unllawr newydd i'r prif annedd yn ei le – Bryn Onnen, Lôn Engan, Aber-soch – <b>Dylid fod wedi'i dderbyn ar Fedi'r ail</b>
*C20/0693/39/RA	Cais i ryddhau amodau 3 (defnydd to), 4 (gorffeniad allanol) a 5 (tirlunio) o ganiatâd cynllunio C18/0895/39/LL i ddymchwel tŷ presennol a chodi tŷ newydd – Pentre Bach, Lôn Pentre Bach, Aber-soch – <b>Caniatawyd heb amodau eisoes (Ni dderbyniwyd y cais)</b>
*C20/0713/39/LL	Adeilad Ffrâm Porth arfaethedig (Ymddangosiad Amaethyddol) fel storfa dan do ar gyfer offer cynnal a chadw parc gwyliau – Bryn Cethin Bach Caravan Park, Lôn Garmon, Aber-soch – <b>Dylid fod wedi'i dderbyn ar Fedi 4ydd</b>
*C20/0728/39/DT	Adeiladu porth blaen, modurdy ochr, cynyddu maint y to i ddarparu lloffttydd llawr cyntaf â ffenestri gromen to brig ac ymestyn yr ardal batio bresennol – Windover, 5 Llwyn Onn, Aber-soch – <b>Dylid fod wedi'i dderbyn ar Fedi 14eg</b>
*C20/0729/39/AC	Diwygio Amod 2 o ganiatâd cynllunio C19/0119/39/LL er galluogi ychwanegu ystafell ardd i'r anecs a ganiatawyd – Cefn, Llanengan – <b>Dylid fod wedi'i dderbyn ar Fedi 14eg</b>
*C20/0735/39/DT	Codi estyniad ochr/cefn a phorth newydd – Tyddyn Twlc, Cilan – <b>Dylid fod wedi'i dderbyn ar Fedi 22ain</b>
C20/0746/39/AC	Diwygio Amod 2 o Ganiatâd Cynllunio C15/0904/39/LL er mwyn caniatáu newidiadau mân i ddyluniad y tŷ – Deucoch Hotel, Sarn Bach – <b>Cefnogir ond, beth yw'r Amod gan nad yw'n glir iawn yn y dyfarniad gwreiddiol</b>
*C20/0756/39/LL	Newid defnydd o eiddo Gwely a Brechwast (Dosbarth Defnydd C1) i annedd (dosbarth Defnydd C3) – Angorfa, Aber-soch – <b>Dylid fod wedi'i dderbyn ar Fedi 22ain</b>
C20/0765/39/DT	Creu teras haul ar yr ail lawr â sgrin falconi wydr – 266 Cae Du, Aber-soch – <b>Gwrthwynebir oherwydd y buasai'n ddechrau cysnail o gael 'balconi uwch ben balconi'</b>
C20/0775/39/CC	Gwaith tocio ar ddwy goeden – Cyn-westy White House, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – <b>Cefnogir mewn egwyddor ond, dymunir cael mwy o fanylion oherwydd safant ar ochr chwith y ffordd sy'n arwain at safle'r cyn-westy – torrwyd y coed oedd ar hwnnw eisoes</b>
C20/0778/39/LL	Dymchwel storfa a gweithdy tractor pren presennol ac adeiladu storfa a gweithdy tractor newydd ffrâm dderw – Porth Tocyn House, Bwlchtocyn – <b>Cefnogir</b>
C20/0788/39/LL	Codi adeilad storio contractwr amaethyddol – Tir ger Berth Wen, Bwlchtocyn – <b>Cefnogir os nad yw'n rhy fawr, gan nad oes mesuriadau na chynllun i'w gwirio er hysbysu'r Adran Gynllunio</b>
C20/0812/39/DT	Dymchwel ystafell wydr upvc bresennol, teras dyrchafedig a modurdy. Adeiladu ystafell haul newydd, teras allanol ddyrchafedig a modurdy â sawna i gynnwys gosod a phwmp gwres ffynhonnell aer, popty pizza a thwb poeth â gwaith tirlunio cysylltiedig – Calamyor, 7 Lôn Hawen, Aber-soch – <b>Cefnogir</b>

5. **MATERION YN CODI**

Nid oedd dim yn codi.

6. **MYNWENT Y BWLCH**

Dosbarthwyd copi o gofnodion yr Is-bwyllgor a gynhaliwyd neithiwr i bawb eisoes (gweler atodiad). Penderfynwyd eu derbyn, ynghyd â'r rhestr brisiau newydd ar gyfer claddu yn y fynwent – anfonir hi at ymgymerwyr lleol. Diolchwyd yn fawr i'r Cyng. Robert M. Jones am ei waith gwirfoddol yn gwagio'r biniau ers blynyddoedd, yn dilyn derbyn neges oddi wrtho'n hysbysu ei fwriad o roi'r gorau i'r dasg (anfonodd at yr Henaduriaeth hefyd). Dywedodd mai gorfod didoli'r ysbwriel (gan gynnwys menig Covid-19) yw'r broblem fwyaf. O'r herwydd, awgrymodd ei bod yn gyfle mynd â'r biniau oddi yno a gosod arwydd yn gofyn i bawb fynd â'u hysbwriel gartref. Cytunwyd ag o a phenderfynwyd gofyn am amcanbris gan ddau gwmni lleol.

Mae'r trafodaethau â'r Henaduriaeth parthed trosglwyddo Mynwent y Capel yn hynod araf. Ni dderbyniwyd ateb i'r un o'r llythyrau a anfonwyd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf – cwyn gyffredinol gan unrhyw un sy'n gohebu â'r swyddogion. Yn anffodus, bu farw'r Ysgrifennydd ddiwedd mis Medi.

Penderfynwyd ysgrifennu at yr Henaduriaeth i ddweud fod y Cyngor yn fodlon derbyn meddiant o'r Fynwent ar yr amod y derbynir cyfraniad at ei chynnal a'i chadw am ddeng mlynedd. Costia ddwy fil o bunnoedd y flwyddyn ar y funud – torrwyd y gwellt am y tro olaf yr wythnos hon a ariannwyd â gweddill yr arian oedd yng nghyfrif Mynwent y Capel.

7. **MATERION CYLLIDOL**

Dosbarthwyd copi o Adroddiad Ariannol Ebrill i Fedi (gweler atodiad) ymlaen llaw – penderfynwyd derbyn yr wybodaeth ac archebu un fainc ar gyfer Cae Chwarae Mynytho (tynnwyd yr un mwyaf bregus o'r safle erbyn hyn). Penderfynwyd nad oedd dim i'w gollu o anfon copi o anfoneb trydan.

8. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Dilyn a Darganfod**

Cafwyd trafferthion â Dilyn a Darganfod ers misoedd – yn bennaf ar ôl uwchraddio/newid y system – ac, er ceisio ei ddatrys â'r swyddogion deil yn broblem. Ni dderbyniwyd hanner dwsin o geisiadau rhwng dechrau a diwedd mis Medi am ryw reswm ychwaith (gweler uchod).

b) **Llythyr a Datganiad Cyngor Tref Nefyn ar Ail Gartrefi**

Derbyniwyd llythyr a datganiad safbwynt oddi wrth Gyngor Tref Nefyn yn mynegi pryder am sefyllfa'r farchnad dai yng Ngwynedd yn dilyn gwerthu cymaint fel ail gartrefi yn ddiweddar. Gofynnir am gefnogaeth cyngorau eraill i Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd ystyried ac ymarfer mesurau – penderfynwyd cefnogi'r cais.

9. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Ffyrdd/Llwybr yn Cau**

Derbyniwyd Rhybuddion yn hysbysu y caewyd ffyrdd dros y misoedd diwethaf. Caeir y ffordd rhwng Bodwi a Choed y Fron ar Hydref 30ain a rhan o Lwybr Rhif 70 ar Lôn Willis ar Hydref 19eg.

b) **Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd) (Ardal Dwyfor Rhif 4) 2020**

Derbyniwyd copi o'r Rhybudd Cyhoeddus ar gyfer y bwriad o atal parcio (dim aros ar unrhyw adeg) ar ddwy ochr y ffordd heibio Fferm Machroes o'i chyffordd â Madog View hyd at Y Tŷ Pren ond hepgor pellter o ugain metr ar ochr orllewinol y ffordd yn unig ger mynedfa 'By The Way'; angen sylwadau erbyn Tachwedd 6ed – dim gwrthwynebiad.

10. **MATERION HAWLIAU TRAMWY**

a) **Torri'r Llwybrau**

Cwblhawyd y cwbl ac ail-dorrwyd rhai oherwydd y tyfiant ychwanegol. Derbyniwyd neges oddi wrth yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy'n nodi oherwydd amgylchiadau Covid-19 roedd yn fodlon talu 50% o gost y rhai sydd gwir angen eu hail-dorri ar yr amod na fuasai'r cyfanswm yn fwy na'r un blynyddol – anfonwyd ail anfoneb contractwr llwybrau Aber-soch a'r cylch ato eisoes (gweler 17. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod).

11. **YSGOL ABER-SOCH**

Yn unol â phenderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd i wrthwynebu'r bwriad o ddechrau trafodaethau cau'r ysgol, penderfynwyd ysgrifennu am y bwriad i fynegi anfodlonrwydd llwyr a'r anghwrteisi o beidio â derbyn gwybodaeth na gohebiaeth.

12. **GWEFAN Y CYNGOR – CYDYMFFURFIO Â'R RHEOLAU NEWYDD**

Cysylltwyd â Delwedd, fel nodwyd yng nghofnod 14. Gohebiaeth (ch) cyfarfod Chwefror 12fed, 2020 i holi am y cyfarwyddiadau newydd a ddeuai i rym ar Fedi 23ain. Edrychodd Delwedd ar y wefan dros yr haf ac awgrymwyd y buasai'n rhatach creu un newydd nag addasu'r un bresennol – darllenwyd hynny mewn erthyglau hefyd. O ganlyniad, derbyniwyd amcanbris (£779.70 + TAW) oddi wrth Delwedd – penderfynwyd ei dderbyn er mwyn cydymffurfio â'r gofynion newydd.

13. **CIOSG BT STRYD FAWR, ABER-SOCH**

Arwyddwyd y cytundeb yn trosglwyddo'r uchod i'r Cyngor. Mae angen chwilio am brisiau diffribiliwr – penderfynwyd holi erbyn cyfarfod mis Tachwedd.

14. **ARWYDDBYST PREN**

Yn dilyn gweld eitem ar raglen 'Heno' ddechrau mis Medi am arwyddbyst pren a wnaed gan Sioned Mair Williams, arlunydd o Aberdaron; cysylltwyd â hi am fwy o fanylion. Soniodd bod trafodaethau ar y gweill ar gyfer Aber-soch hefyd. Derbyniwyd neges oddi wrth Wyn Williams, Aber-soch, yn gofyn tybed a fyddai gan y Cyngor hwn ddiddordeb ynddynt hefyd. Penderfynwyd ei drafod yng nghyfarfod mis Tachwedd.

15. **GOHEBIAETH [a)– f) – cofnod yn unig; ff) – h) – trafodwyd]**

a) **Un Llais Cymru**

i) ***Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)***

Copi, er gwybodaeth o Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar yr uchod. Daw nifer o argymhellion i rym maes o law, e.e. bydd yn ofynnol i gynghorau cymuned baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol (dechreuwyd paratoi drafft) a chynlluniau hyfforddi gorfodol i gynghorwyr.

ii) ***Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol – Datganiad Blynyddol 2018 – 2019***

Arddangoswyd yr uchod yn yr hysbysfwrdd ac ar y wefan, ynghyd ag anfon copi i'r Llywodraeth erbyn Medi 30ain, yn unol â'r gofyniad statudol.

b) **Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) – Hyfforddiant i Gynghorau Cymuned ar y Còd Ymddygiad i Aelodau**

Derbyniwyd ateb oddi wrth yr uchod ym mis Ebrill yn nodi mai un taliad am yr hyfforddiant oedd y £25.00 yn hytrach na'r aelod unigol. Yn naturiol, ni ellid parhau â'r bwriad o'i gynnal oherwydd y cyfyngiadau presennol.

c) **Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Atodol – Yr Egwyddorion ynglŷn ag Ad-dalu Costau Gofal**

Copi o'r adroddiad er gwybodaeth a gweithrediad. Penderfynwyd ei gyhoeddi heb unrhyw ddiwygiadau yn dilyn derbyn ymatebion yn cefnogi'r egwyddorion a ddisgrifiwyd; daeth i rym ar Orffennaf 1af.

ch) **Ben Beattie – Argaeledd Rhandir**

Ymholiad oddi wrth yr uchod sy'n byw yn Llangian am argaeledd rhandir – atebwyd nad oes gan y Cyngor rai.

d) **Rheolwr Digwyddiadau – Penderfyniad Tîm Arweinyddiaeth Cyngor Gwynedd ar ddefnydd tir y Cyngor i gynnal Digwyddiadau Torfol**

Cadarnhad o'r penderfyniad uchod na ellir cynnal digwyddiadau megis Treiathlon Aber-soch ar dir Cyngor Gwynedd rhwng mis Gorffennaf a diwedd mis Mawrth 2021. Anfonwyd gwrthwynebiad y Cyngor hwn yn dilyn derbyn cais am farn yr Aelodau ar y mater oherwydd dalia'r trefnydd eu hysbysebu.

dd) **Cyng. John B. Hughes – Ysbyty Bryn Beryl**

Copi o e-bost a anfonwyd at swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn holi pam bod rhaid i drigolion Pen Llŷn deithio i Ysbyty Alltwen, Tremadog, ar gyfer mynychu Uned Mân Anafiadau, gan y datganwyd Ysbyty Bryn Beryl yn 'Wyrdd' ers tro.

e) **Adran Amgylchedd – Gwasanaeth Cefn Gwlad a Mynediad – Llygad Llŷn 2020**

Copi, er gwybodaeth, o rifyn diweddaraf AHNE Llŷn.

f) **Cyfoeth Naturiol Cymru – Cytundeb Rheolaeth Foel Gron a Thir Comin Mynytho**

Derbyniwyd copi o'r cytundeb a adnewyddwyd ddechrau'r flwyddyn.

- ff) **Cyngor Cymuned Llanllyfni – Yr Wyddfa**  
Copi o benderfyniad yr uchod i alw cyfarfod â rhanddeiliaid i drafod yr egwyddor o godi tâl ar ymwelwyr gerdded yr Wyddfa; penderfynwyd cytuno ond, angen mwy o wybodaeth os yn bosibl.
- g) **Swyddog Trwyddedu – Cais am Drwydded Eiddo i Abersoch Diner, Stryd Fawr**  
Derbyniwyd y cais, a oedd angen sylwadau ysgrifenedig erbyn ddoe (Hydref 13eg) – fe'i hanfonwyd at Aelodau Ward Aber-soch a phenderfynwyd ei wrthwynebu oherwydd nad oes angen tafarn arall yng nghanol y pentref. Mynegwyd, hefyd, ei fod yn gais amwys, gan nad eglurai'r bwriad yn iawn dim ond nodi amseroedd.
- ng) **O Ddrws i Ddrws – Cais am Gyfraniad at Gario Cleifion i Apwyntiadau Meddygol a Gwahoddiad i Ymuno â'r Bwrdd Rheoli**  
Cais cyffredinol at gynghorau cymuned yr ardal am gyfraniad i gludo cleifion i apwyntiadau meddygol. Cyfrannwyd £500.00 ddwy flynedd yn ôl i sefydlu'r gwasanaeth yn dilyn methiant y Cynllun Peilot a drefnwyd i drigolion y gymuned ar ôl cau Meddygfa Aber-soch. Penderfynwyd gofyn faint o'r gymuned hon a ddefnyddiodd y gwasanaeth cyn penderfynu ar swm. Nid oedd gan neb ddiddordeb ymuno â'r Bwrdd Rheoli.
- h) **Cyngor Cymuned Aberdaron – Meddygfa Rhydbach**  
Derbyniwyd e-bost yn mynegi pryder am safon y gwasanaeth a geir o'r uchod, yn arbennig o ran y system trefnu apwyntiadau. Er gohebu fwy nag unwaith, ni dderbyniwyd ymateb positif ac, oherwydd rhwystredigaeth, penderfynwyd gofyn i gynghorau eraill am gefnogaeth i geisio gwell gwasanaeth i gleifion – penderfynwyd cefnogi.

## 16. DYFARNIADAU CYNLLUNIO

C19/0262/39/CC	Torri dwy goeden dan Orchymyn Diogelu Coed – Gorsaf Bad Achub RNLi, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – <b>Gwrthodwyd</b>
C19/1157/39/DT	Adeiladu estyniad unllawr i'r annedd, ynghyd â modurdy dwbl ar wahân – Crib y Gwynt, Lôn Garreg, Mynytho – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0176/39/LL	Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd yn ei le – Cae'r Ffynnon, Fferm Pant yr Hwch, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0228/39/LL	Estyniadau unllawr a deulawr i eiddo yn cynnwys ymestyn cegin a chreu ystafell wely en-suite ac ystafell ardd ar lefel llawr daear a chreu ystafell ymolchi ar y llawr cyntaf, ynghyd â gwaith cysylltiol – Ynysfor, Lôn Sarn Bach, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0280/39/DT	Tynnu to fflat ac adeiladu un brig i'r modurdy, ynghyd â gosod byrddau cladio gwyn ar y waliau – 16 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0301/39/DT	Creu agoriad newydd yn y wal ffin ar gyfer mynedfa gerbydol a chodi ffens postyn a rheiliau i wahanu tramwya sy'n cael ei rhannu – Glasfryn, Allt Graig Wen, Mynytho – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0342/39/DT	Addasiadau a newidiadau, gan gynnwys gosod ffenestri to, cladin allanol a chysgodfan ar gyfer ceir, ynghyd â gwaith tir yn cynnwys codi wal gynnal, creu gofod parcio ac ardal patio newydd – 64 Cae Du, Aber-soch – <b>Gwrthodwyd</b>

C20/0352/39/DT	Gosod pedair ffenestr gromen – Elim, Lôn Garmon, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0355/39/DT	Estyniad deulawr ochr – Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0373/39/DT	Estyniad unllawr ochr – Beach House, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0415/39/RA	Rhyddhau Amodau 5 (Manylion Unedau) ac 8 (Manylion Archeolegol) a rhannol ryddhau Amod 9 (Archeolegol) ar Ganiatâd Cynllun C19/1122/39/LL – Maes Carafanau Tal-y-fan, Aber-soch – <b>Rhyddhawyd yr amodau'n rhannol</b>
C20/0417/39/CR	Gosod canllaw ar y grisiau mewnol – Goleudy Ynys Sant Tudwal, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0425/39/LL	Codi estyniad – 1 Fferm y Fach, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0432/39/LL	Newid arfaethedig o annedd i lety gwely a brechwast yn cynnwys llety i'r perchennog – Hafod, Lôn Gwydryn, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0441/39/LL	Dymchwel porth presennol ac adeiladu porth/estyniad newydd yn ei le – Fferm Tan-y-Bryn, Sarn Bach – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0447/39/LL	Dymchwel ac ailgodi tŷ ar yr un safle – Nyth-y-Môr, Bwlchtocyn – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0522/39/LL	Estyniad i'r ystafelloedd newid presennol – Clwb Golff Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0527/39/DT	Dymchwel adeilad allanol presennol ac adeiladu anecs yn ei le – Bryn Cethin Bach Caravan Park, Lôn Garmon, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0529/39/DT	Rhannol ddymchwel estyniad presennol, tynnu to un-llethr ac adeiladu estyniad unllawr newydd â tho brig ar yr edrychiad cefn – Bod Engan, Llanengan – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0572/39/LL	Codi estyniad unllawr yn lle'r un presennol – Hyfrydle, Lôn Isaf, Mynytho – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0581/39/RA	Caniatâd ar gyfer manylion wedi'u cadw'n ôl gan amod Rhyddhau Amod 6 (manyllion unedau) ar ganiatâd cynllunio C19/0996/39/LL – The Warren, Aber-soch – <b>Rhyddhawyd yr amod yn llawn</b>
C20/0614/39/DT	<b>Cais Diwygiedig</b> – Addasiadau a newidiadau gan gynnwys gosod ffenestri to, cladin allanol a chysgodfan ar gyfer ceir, ynghyd â gwaith tir yn cynnwys codi wal gynnal ac ardal patio newydd – 64 Cae Du, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0650/39/DT	Dymchwel y modurdy presennol ac adeiladu estyniad ar ochr yr eiddo ac ymestyn y ffenestr gromen bresennol yn y cefn – Tŷ'r Afon, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0668/39/DA	Diwygiad ansylweddol i'r cynlluniau a gymeradwywyd trwy Ganiatâd Cynllunio C19/1105/39/DT i gynnwys: (1) codi uchder y balwstrad ddi-ffrâm gwydrog o 1.1m i 1.5m ar y balconi estynedig llawr uchaf dwyrain, y balconi dormer llawr uchaf de, y balconi crwm llawr gwaelod de, a'r patio/decin llawr gwaelod dwyrain; (2) balwstrad/sgrin ddi-ffrâm wydrog 1.5m o uchder dan falconi estynedig y llawr uchaf, ar lefel y llawr gwaelod – Trigfa, Lôn Sarn Bach, Aber-soch – <b>Caniatawyd ag amodau</b>
C20/0678/39/DA	Diwygiad Ansylweddol i'r cynlluniau a gymeradwywyd gan Ganiatâd Cynllunio C20/0212/39/ DT er cynnwys ffenestr denau newydd

3000mm o led i'r drychiad gorllewinol – Plas Bach, Maes Gwydryn,  
Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

17. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

**Taliadau**

Cadarnhawyd talu cyflog misoedd Gorffennaf, Awst, Medi a Hydref (Rh/S 002302, 002306, 002311 a 002314) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

- a) Casglwr Trethi – £1.21 (Rh/S 002301 – Talu Wrth Ennill)
- b) E-on – £20.31 (D/U – Cyflenwad Trydan mis Gorffennaf y Toiledau)
- c) Rob Singleton Garden Services – £5800.00 (Rh/S 002304 – Torri Llwybrau Wardiau Aber-soch a Llanengan)
- ch) E-on – £20.86 (D/U – Cyflenwad Trydan mis Awst y Toiledau)
- d) Williams a Williams – (Rh/S 002307 – Dadflocio'r Toiledau)
- dd) Dŵr Cymru – £200.00 (Rh/S 002308 – Toiledau Lôn Traeth)
- e) Bacstal PAC – £119.14 (D/U – Gwasanaeth Paratoi Cyflogau Chwarterol)
- f) Rob Singleton Garden Services – £2260.00 (Rh/S 002309 – Ail Doriad i Rai o Llwybrau Wardiau Aber-soch a Llanengan)
- ff) Dŵr Cymru – £817.59 (Rh/S 002310 – Toiledau Lôn Traeth)
- g) Zurich Municipal – £751.90 (Rh/S 002312 – Yswiriant y Cyngor)
- ng) Cyngor Gwynedd – £4871.88 (Rh/S 002313 – Gwagio Biniau Baw Cŵn a'r Caeau Chwarae 2019 – 2020 [£3229.20] ac Ebrill – Medi 2020 [£1642.68])

**Derbyniadau**

- a) Toiledau – £0.60 (Tâl Mynediad)
- b) Cyngor Gwynedd – £2438.50 (Ad-daliad Torri'r Llwybrau 2020)
- c) Cyngor Gwynedd – £27500.00 (Ail Daliad Praesept 2020 – 2021)
- ch) Toiledau – £14.30 (Tâl Mynediad)
- d) Toiledau – £9.00 (Tâl Mynediad)
- dd) Andrew Skitt – £100.00 (Rhent Penymynydd)

8. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Tachwedd 11eg, 2020 am 7.45 o'r gloch ar **Zoom** oni bai bo newid yn y Rheoliadau